



Adran  
Ffiseg

---

Astudiaethau israddedig mewn

**Ffiseg**

---

# Cynnwys

Croeso	t.1
Yr Adran	t.2
Ein cyrsiau	t.4
Cyflogadwyedd	t.15
Ysgoloriathau yr adran	t.16
Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg	t.17
Ymchwil yr Adran	t.18
Astudio yn yr Arctig	t.20
Cyfleoedd byd-eang	t.22
Sut i wneud cais	t.24



## Gwybodaeth bwysig

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir am y rhaglenni gradd yn y llyfryn hwn yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w hargraffu (Mehefin 2022), ond fe allai newid. Cyngorir darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs, gan gynnwys ein gofynion mynediad, cyn gwneud cais, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.

# Croeso

Croeso i'r Adran Ffiseg. Yr Athro Andrew Evans ydw i, a fi yw'r Pennaeth Adran.

Mae traddodiad hir o ddysgu Ffiseg a Seryddiaeth yn Aberystwyth byth ers sefydlu'r Brifysgol yn yr Hen Goleg ar lan y môr yn 1872. 150 o flynyddoedd yn ddiweddarach, rydyn ni'n parhau i gynnig profiad dysgu ac addysgu o safon uchel i'n myfyrwyr ac rydym wedi ein gosod yn y 10 uchaf yn y DU am Brofiad Myfyrwyr ym maes Ffiseg a Seryddiaeth (Canllaw Prifysgolion Da, The Times and Sunday Times 2022) a 10 uchaf yn y DU ar gyfer Darlithoedd ac Ansawdd Dysgu (WhatUni? Gobrau Dewis Myfyrwyr 2022).

Ein nod yw darparu addysg o'r safon uchaf mewn amgylchedd cyfeillgar a chefnogol a chynnal ymchwil cydweithrediadol, sy'n gystadleuol yn rhyngwladol, yn Ffiseg y Gofod, Ffiseg Deunyddiau a Ffiseg Cwantwm. Mae ein darlithwyr yn ymchwilwyr gweithredol, yn ymwneud â phrosiectau sy'n amrywio o beirianneg deunyddiau newydd ac offerynnau newydd i gyrchoedd planedol ac astudiaethau arloesol o weithgaredd yr Haul. Mae eu hymchwil yn bwydo i'w haddysgu felly gallwch fod yn sicr y cewch ddysgu am y syniadau diweddaraf gan rai o arbenigwyr blaenllaw Prydain yn eu meysydd.

Lleolir yr Adran yn un o adeiladau mwyaf nodedig campws Penglais sy'n enwog am ei bensaerniaeth, ac mae darlithfeydd, labordai, manau astudio a Llyfrgell y Gwyddorau Ffisegol i gyd yn yr un man. Ar ôl cael ei ailwampio'n ddiweddar gallwn barhau i ddarparu amgylchedd dysgu ysgogol i gorff cynyddol o fyfyrwyr o bedwar ban byd. Mae'r Adran bellach yn gartref i dros 300 o fyfyrwyr israddedig ac uwchraddedig.

Mae gradd mewn Ffiseg yn baratoad rhagorol am yrfaoedd mewn meysydd fel dysgu a pheirianneg yn ogystal â bod yn gam cyntaf i ddod yn wyddonydd proffesiynol. Caiff y mwyafrif o'n cyrsiau Ffiseg eu hachredu gan y Gymdeithas Ffiseg (IOP) ac mae'r cwricwlwm yn eich rhoi mewn sefyllfa i ddilyn cyrsiau ar y cyd ag adrannau eraill yn y brifysgol ac arbenigo mewn meysydd fel ffiseg fathemategol ac astroffiseg.


Mae ein holl gyrsiau anrhydedd sengl hefyd ar gael fel cyrsiau Meistr Integredig felly gallwch raddio gyda chymhwyster uwchraddedig, ac mae rhai ar gael gyda blwyddyn integredig mewn diwydiant, sy'n golygu y gallwch fod ar y blaen wrth fynd i'r farchnad swyddi gystadleuol.

Gan gydweithio'n agos â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, mae'r Adran yn chwarae rhan flaenllaw wrth ddarparu ffiseg mewn addysg uwch trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ymunwch â ni ar Ddiwrnod Agored neu Ddiwrnod Ymweld i Ymgeiswyr i weld beth sy'n gwneud Aberystwyth yn lle mor anhygoel i astudio.


Edrychwn ymlaen at eich croesawu i'r Adran.

**Yr Athro Andrew Evans  
Pennaeth yr Adran**





# Yr Adran





# Ein cyrsiau

## Anrhydedd sengl

Astroffiseg	t.5
Ffiseg	t.6
Ffiseg Beiriannol	t.8
Ffiseg Fathemategol a Damcaniaethol	t.9
Ffiseg gyda Ffiseg y Planedau a'r Gofod	t.10
Gwyddor y Gofod a Roboteg	t.11
Graddau Cyfun a Phrif/Is-bwnc	t.12

## Graddau sylfaen

Astroffiseg (gyda blwyddyn sylfaen integredig)	t.13
Ffiseg (gyda blwyddyn sylfaen integredig)	t.14

# Astroffiseg

## BSc (Anrh) / MPhys (Anrh)

Mae gradd Astroffiseg yn Aberystwyth yn ymgorffori pynciau cyfredol ym maes seryddiaeth ynghyd â ffiseg sylfaenol er mwyn archwilio rhyngweithio ynni a mater yn y bydysawd agos a phell.

Mae'r radd yn astudio meysydd sy'n cynnwys ffurfiant ac esblygiad cysawd yr haul, bydoedd cawr nwy a daearol, tu mewn ac arwynebau planedau, atmosfferau planedol, y gwynt solar, yr Haul fel seren, comedau, cewri coch, corachod gwyn, sêr niwtron, tyllau du, galaethau, cwasarau a chosmoleg.

Mae'r radd MPhys (F511) yn cynnwys pedwaredd flwyddyn sy'n dilyn ymlaen o'r cwrs F510 tair blynedd, ac mae'n cynnig hyfforddiant ymchwil ychwanegol a chyfle i ddatblygu sgiliau.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Astroffiseg yn Aberystwyth:

- astudio am radd sydd wedi'i hachredu gan y Sefydliad Ffiseg (IOP)
- cysylltu eich prosiect blwyddyn olaf ag ymchwil gyfredol yn yr Adran mewn meysydd megis ffiseg y gofod a seryddiaeth
- cyfle i ddefnyddio cyfarpar seryddol arbenigol
- cael eich dysgu gan ymchwilwyr sy'n rhan o deithiau presennol i'r gofod fel Prosiect ExoMars 2020 yr Asiantaeth Ofod Ewropeaidd.

### Cyflogadwyedd

Bydd gradd mewn Astroffiseg yn eich paratoi ar gyfer gyrfa fel gwyddonydd y gofod, ffisegwr, technegydd labordy gwyddonol, ymarferwr diogelu ymbelydredd, a gwyddonydd ymchwil. Gallai llwybrau gyrfa eraill gynnwys datblygwr systemau, gwyddonydd datblygu cynhyrchion, awdur technegol neu feteorolegydd.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Algebra a Hafaliadau Differol/Differential Equations
- Astronomy
- Calcwlws/Calculus
- Dynameg Glasurol/Classical Dynamics
- Ffiseg Glasurol/Classical Physics
- Technegau Labordy ar gyfer Ffiseg Arbrofol/Laboratory Techniques for Experimental Physics
- Grymoedd ac Egni/Forces and Energy
- Algebra a Chalcwlws Pellach/Further Algebra and Calculus
- Modern Physics
- Cynllunio Gyrfa a Datblygu Sgiliau Ffiseg/Physics Career Planning and Skills Development.

### Yr ail flwyddyn:

- Ffiseg Fathemategol/Mathematical Physics
- Numerical Techniques for Physicists
- Planets
- Stars
- Trydan a Magnetedd/Electricity and Magnetism
- Optics
- Principles of Quantum Mechanics.

### Y drydedd flwyddyn:

- Concepts in Condensed Matter Physics
- Galaxies
- Interior of the Sun
- Prosiect/Project
- Space Plasmas
- General Relativity and Cosmology
- The Solar Atmosphere and Heliosphere.


## Cwrs achrededig:



## Ffeithiau Allweddol

 **Math o radd:** BSc/MPhys.

 **Cod UCAS:** F510/F511.

 **Hyd:** 3 blynedd/4 blynedd.

## BSc (Anrh) / MPhys (Anrh)

Mae dealltwriaeth o egwyddorion ffiseg yn sail i'n holl wyddoniaeth a thechnoleg fodern. Mae'n ymwneud â chymhwyso cysyniadau haniaethol a fynegir drwy fathemateg i fodelu a rhagweld ymddygiad systemau sy'n amrywio yn eu maint o'r is-atomig i'r galaethol. Mae Ffiseg yn Aberystwyth yn archwilio meysydd mor amrywiol â thechnoleg cwantwm, damcaniaeth perthnasedd a ffiseg cyflwr solet.

Bydd ein staff addysgu a arweinir gan ymchwil yn cyflwyno ichi wybodaeth arbenigol a sgiliau ymarferol, fydd yn cynnwys pynciau cyffrous fel technoleg cwantwm, perthnasedd, ffiseg cyfrifiannu, deunyddiau uwch, nano-wyddoniaeth, opteg, laserau ac offeryniaeth.

Mae'r radd MPhys (F303) yn cynnwys pedwaredd flwyddyn sy'n dilyn ymlaen o'r cwrs F300 tair blynedd, ac mae'n cynnig hyfforddiant ymchwil ychwanegol a chyfle i ddatblygu sgiliau.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Ffiseg yn Aberystwyth:

- astudio am radd sydd wedi'i hachredu gan y Sefydliad Ffiseg (IOP)
- ymuno ag adran sydd â dros 140 o flynyddoedd o brofiad mewn rhagoriaeth ac addysgu
- yr opsiwn i ymgymryd â phrosiectau blwyddyn olaf yn gysylltiedig ag arbenigedd ymchwil ym maes ffiseg deunyddiau, cwantwm a'r gofod
- cael eich dysgu gan ymchwilwyr sy'n rhan o deithiau presennol i'r gofod fel Prosiect ExoMars 2020 yr Asiantaeth Ofod Ewropeaidd.

### Cyflogadwyedd

Mae graddedigion Ffiseg wedi'u paratoi'n dda ar gyfer amrywiaeth eang o ddewisiadau gyrfa. Mae rhai o'n graddedigion erbyn hyn yn dilyn gyrfaoedd mor amrywiol â meteoroleg, cyfrifeg, cyfrifiadura, geoffiseg, ffiseg feddygol, dysgu mewn ysgolion a phrifysgolion, ac ymchwil mewn ffiseg deunyddiau a'r gwyddorau seryddol, gofodol a phlanedol.

## Ffeithiau Allweddol



**Math o radd:** BSc/MPhys.



**Cod UCAS:** F300 (F304 gyda blwyddyn mewn diwydiant), F303 (F305 gyda blwyddyn mewn diwydiant).



**Hyd:** 3 neu 4 blynedd / 4 neu 5 mlynedd.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Algebra a Hafaliadau Differol/Algebra and Differential Equations
- Calcwlws/Calculus
- Dynameg Glasurol/Classical Dynamics
- Ffiseg Glasurol/Classical Physics
- Technegau Labordy ar gyfer Ffiseg Arbrofol/Laboratory Techniques for Experimental Physics
- Grymoedd ac Egni/Forces and Energy
- Algebra a Chalculws Pellach/Further Algebra and Calculus
- Modern Physics
- Cynllunio Gyrfa a Datblygu Sgiliau Ffiseg/Physics Career Planning and Skills Development.

### Yr ail flwyddyn:

- Ffiseg Fathemategol/Mathematical Physics
- Numerical Techniques for Physicists
- Sensors, Electronics and Instrumentation
- Trydan a Magnetedd/Electricity and Magnetism
- Optics
- Principles of Quantum Mechanics.

### Y flwyddyn olaf:

- Concepts in Condensed Matter Physics
- Modern Optics and Photonics
- Prosiect/Project
- Structure and Determination of Condensed Matter
- Materials Physics
- Semiconductor Technology.

## Cwrs achrededig:



# Ffiseg Beiriannol

## BEng (Anrh) / MEng (Anrh)

Mae Ffiseg Beiriannol yn canolbwyntio ar gymhwyso egwyddorion a thechnegau ffisegol i beirianneg a thechnoleg - dau ddiwydiant heriol. Yn Aberystwyth, rydym yn rhoi ichi'r wybodaeth a'r sgiliau ym maes hyfforddiant ffiseg sy'n angenrheidiol ar gyfer defnyddio peirianneg i ganfod atebion mewn sefyllfaoedd go iawn.

Ceir elfen ymarferol TG gref yn y cwrs hwn ynghyd â chyfle i sicrhau arbenigedd mewn pynciau arbenigol fel micro- a nano-electroneg, ffontoneg gymwysedig, dylunio a chynhyrchu deunyddiau, technoleg cwantwm, roboteg, ynni solar ac offerynnau gofodol. Gyda'r cyfle i dreulio blwyddyn mewn diwydiant rydym yn hyderus y gall ein dulliau dysgu arloesol a'r cyfleoedd a ddarparwn eich paratoi ar gyfer dyfodol llewyrchus.

Mae'r MEng (168F) yn cynnwys lleoliad diwydiannol integredig a blwyddyn ychwanegol o astudio lle byddwch yn ennill hyfforddiant proffesiynol a sgiliau ymchwil.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Ffiseg Beiriannol yn Aberystwyth:


- astudio am radd a achredir gan y Sefydliad Ffiseg (IOP)
- yr opsiwn i wneud blwyddyn mewn cyflogaeth i ddatblygu'ch profiad ymarferol o gymhwyso'r sgiliau a ddysgwyd yn ystod y ddwy flynedd gyntaf
- defnyddio cyfleusterau arbenigol gan gynnwys gweithdai mecanyddol, electroneg a roboteg, gwneuthuriad a nodweddu deunyddiau
- defnyddio offerynnau optegol a gofodol a thirwedd blanedol
- cael eich dysgu gan ymchwilwyr sy'n rhan o deithiau presennol i'r gofod, fel Prosiect ExoMars 2020 yr Asiantaeth Ofod Ewropeaidd, a chreu deunyddiau dimensiwn isel (ee graffin).


### Cyflogadwyedd

Bydd gradd mewn Ffiseg Beiriannol yn eich paratoi ar gyfer gyrfa fel peiriannydd neu wyddonydd mewn meysydd fel ymchwil a datblygu diwydiannol, datblygu cynnyrch a labordai ymchwil cenedlaethol. Mae'r sectorau cyflogaeth yn cynnwys ynni, ffontoneg, y gofod, TG, iechyd ac addysg.

## Ffeithiau Allweddol







## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Algebra a Hafaliadau Differol/Algebra and Differential Equations
- Calcwlws/Calculus
- Dynameg Glasurol/Classical Dynamics
- Ffiseg Glasurol/Classical Physics
- Communication and Technology
- Technegau Labordy ar gyfer Ffiseg Arbrofol/Laboratory Techniques for Experimental Physics
- Grymoedd ac Egni/Forces and Energy
- Further Algebra and Calculus
- Modern Physics
- Cynllunio Gyrra a Datblygu Sgiliau Ffiseg/Physics Career Planning and Skills Development.

### Yr ail flwyddyn:

- Trydan a Magnetedd/Electricity and Magnetism
- Ffiseg Fathemategol/Mathematical Physics
- Numerical Techniques for Physicists
- Optics
- Principles of Quantum Mechanics
- Sensors, Electronics and Instrumentation
- Thermodynamics.

### Y drydedd flwyddyn:

- Concepts in Condensed Matter Physics
- Engineering Control Theory
- Particles, Quanta and Fields
- Professional Skills in Engineering
- Semiconductor Technology
- Project with Project Management
- Systems Engineering Concepts.

## Cwrs achrededig:



# Ffiseg Fathemategol a Damcaniaethol

## BSc (Anrh) / MMath

Mae Ffiseg Fathemategol a Damcaniaethol yn archwilio'r rhannau mwy damcaniaethol o ffiseg gan ddarparu sylfaen gadarn mewn mathemateg. Yn Aberystwyth, byddwch yn astudio amrywiaeth eang o themâu gan gynnwys algebra haniaethol a llinol, calcwlws, hafaliadau differol, mecaneg cwantwm, dynameg a ffiseg thermol.

Mae'r cyfuniad hwn o fathemateg a ffiseg yn cysylltu â sawl maes diddordeb ac yn adlewyrchu arbenigedd ymchwil mewn mathemateg uwch, rheoli cwantwm, ffiseg solar a ffiseg mater cyddwys.

Trwy ddewis y cwrs MMath, sy'n golygu pedair blynedd o astudio, cewch raddio â gradd uwchraddedig oherwydd y sgiliau ymchwil prosiect ychwanegol ym maes Mathemateg y byddwch wedi eu meithrin.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Ffiseg Fathemategol a Damcaniaethol yn Aberystwyth:

- astudio am radd a gydnabyddir gan y Sefydliad Ffiseg (IOP)
- ymuno â dwy adran sydd â dros 140 o flynyddoedd o brofiad fel addysgwyr o'r radd flaenaf
- cael eich dysgu gan ddarlithwyr sy'n weithgar yn maes ymchwil ac ar flaen y gad yn eu meysydd penodol.

### Cyflogadwyedd

Mae graddedigion Mathemateg a Ffiseg yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan gyflogwyr oherwydd eu sgiliau rhifedd a datrys problemau. Mae'r radd MMath bedair blynedd yn cynnig sgiliau ymchwil yn ogystal. Mae cyfleoedd gyrfaol yn cynnwys peirianneg, ysgrifennu gwyddonol a chyhoeddi, dadansoddi risg, ymchwil gweithredol, ymgynghori ar fusnes, ffiseg feddygol, meteoroleg, cyfrifeg a chyllid.

## Ffeithiau Allweddol





## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Algebra/Algebra
- Calcwlws/Calculus
- Dynameg Glasurol/Classical Dynamics
- Ffiseg Glasurol/Classical Physics
- Tebygoldeb/Probability
- Hafaliadau Differol/Different Equations
- Algebra a Chalculws Pellach/Further Algebra and Calculus
- Dadansoddi Mathemategol/Mathematical Analysis
- Modern Physics
- Ystadegaeth/Statistics.

### Yr ail flwyddyn:

- Distributions and Estimation
- Introduction to Abstract Algebra
- Ffiseg Fathemategol/Mathematical Physics
- Dadansoddiad Real/Real Analysis
- Trydan a Magnetedd/Electricity and Magnetism
- Algebra Llinol/Linear Algebra
- Principles of Quantum Mechanics.

### Y flwyddyn olaf:

- Group Theory
- Normau a Hafaliadau Differol/Norms and Differential Equations
- Probability and Stochastic Processes
- Probing Atoms and Molecules.

### Blwyddyn ychwanegol MMath:

- Prif Brosiect
- Is-Brosiect.

### Cwrs achrededig:



### Cwrs cydnabyddedig:





# Ffiseg gyda Ffiseg y Planedau a'r Gofod

44 ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) / MPhys (Anrh)

Mae gradd Ffiseg gyda Ffiseg y Planedau a'r Gofod yn Aberystwyth yn cynnig ffiseg ynghyd ag archwiliad manwl o ffiseg cysawd yr haul. Mae'r cwrs Ffiseg gyda Ffiseg y Planedau a'r Gofod ymhlith cyrsiau ffiseg y gofod mwyaf cydnabyddedig y DU. Cewch eich addysgu gan arbenigwyr yn y maes a chyfle i ddefnyddio offer astronomegol arbenigol.

Cewch astudio esblygiad cysawd yr haul, y tu mewn i blanedau a'u harwynebau, yr haul fel seren, comedau, a chewri coch. Byddwch hefyd yn dysgu am fecaneg cwantwm, ffiseg thermol, a ffiseg atmosfferig.

Mae'r radd MPhys (F366) yn cynnwys pedwaredd flwyddyn sy'n dilyn ymlaen o'r cwrs F364 tair blynedd, ac mae'n cynnig hyfforddiant ymchwil ychwanegol a chyfle i ddatblygu sgiliau.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Ffiseg gyda Ffiseg y Planedau a'r Gofod yn Aberystwyth:

- y cyfle i gysylltu eich prosiect blwyddyn olaf â phrosiect ymchwil gyfredol ar ffiseg cysawd yr haul
- astudio am radd sydd wedi'i hachredu gan y Sefydliad Ffiseg (IOP)
- cael eich dysgu gan ymchwilwyr sy'n rhan o deithiau presennol i'r gofod fel Prosiect ExoMars 2020 yr Asiantaeth Ofod Ewropeaidd
- y posibilrwydd y cewch dreulio semester yn astudio yn y Cylch Arctig ar ynys Svalbard.

### Cyflogadwyedd

Bydd gradd mewn Ffiseg gyda Ffiseg y Planedau a'r Gofod yn eich paratoi ar gyfer gyrfa fel gwyddonydd y gofod, ffisegydd, technegydd labordy gwyddonol, ymarferwr diogelu ymbelydredd a gwyddonydd ymchwil. Gallai llwybrau gyrfa eraill gynnwys datblygwyr systemau, gwyddonydd datblygu cynhyrchion, awdur technegol neu feteorolegydd.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Algebra a Hafaliadau Differol/Algebra and Differential Equations
- Calcwlws/Calculus
- Dynameg Glasurol/Classical Dynamics
- Ffiseg Glasurol/Classical Physics
- Technegau Labordy ar gyfer Ffiseg Arbrofol/Laboratory Techniques for Experimental Physics
- Grymoedd ac Egni/Forces and Energy
- Algebra a Chalculws Pellach/Further Algebra and Calculus
- Modern Physics
- Physics Career Planning and Skills Development.

### Yr ail flwyddyn:

- Ffiseg Fathemategol/Mathematical Physics
- Numerical Techniques for Physicists
- Planets
- Stars
- Trydan a Magnetedd/Electricity and Magnetism
- Optics
- Principles of Quantum Mechanics.

### Y drydedd flwyddyn:

- Concepts in Condensed Matter Physics
- Interior of the Sun
- Planetary Neutral Atmospheres
- Prosiect/Project
- Space Plasmas
- Ionospheres and Magnetospheres
- Particles, Quanta and Fields
- The Solar Atmosphere and Heliosphere.

## Cwrs achrededig:



Hyd: 3 blynedd/4 blynedd.

# Gwyddor y Gofod a Roboteg

32 ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) / MPhys (Anrh)

Bydd y cynllun gradd unigryw hwn yn eich dysgu am sylfeini archwilio'r gofod ac yn rhoi ichi'r sgiliau i wrdd â gofynion a heriau'r diwydiant hwnnw. Bydd y radd hon yn cyfuno arbenigedd yr Adran Ffiseg ym maes cysawd yr Haul a ffiseg y gofod ag arbenigedd yr Adran Gyfrifiadureg ym maes roboteg y gofod a deallusrwydd artifisial. Byddwch yn ystyried heriau defnyddio robotiaid i archwilio cysawd yr Haul ynghyd â'r modd y gellir mynd i'r afael â'r heriau hynny.

Wrth ichi ddysgu am sylfeini archwilio'r gofod gan arbenigwyr yn y maes hwnnw, byddwch yn meithrin y sgiliau sydd eu hangen i fodloni gofynion a heriau'r diwydiant gofod, ynghyd â chynllunio a datblygu teithiau Astroffiseg a Ffiseg y Gofod yn y dyfodol. Byddwch hefyd yn dysgu am hanfodion Cyfrifiadureg a'r arloesiadau technolegol diweddaraf.

Mae'r radd MPhys (FH5P) yn cynnwys pedwaredd flwyddyn sy'n dilyn ymlaen o'r cwrs FH56 tair blynedd, ac mae'n cynnig hyfforddiant ymchwil ychwanegol a chyfle i ddatblygu sgiliau.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Gwyddor y Gofod a Roboteg yn Aberystwyth:

- astudio'r unig radd o'i bath yn y DU
- dilyn cwrs gradd sydd wedi'i gydnabod gan y Sefydliad Ffiseg (IOP)
- cael y cyfle i ymgymryd â phrosiect sy'n gysylltiedig ag ymchwil gyfredol ym maes ffiseg y gofod neu roboteg
- cael eich dysgu gan ymchwilwyr sy'n rhan o brosiect cyfredol ExoMars 2020 yr Asiantaeth Ofod Ewropeaidd.

### Cyflogadwyedd

Mae nifer o'n graddedigion wedi mynd ymlaen i arbenigo ym maes roboteg y gofod neu faes cysylltiedig fel astroffiseg neu roboteg. Mae gyrfaedd posibl eraill ar gyfer graddedigion y cynllun gradd hwn yn cynnwys datblygu meddalwedd a systemau, rhaglennu cyfrifiadurol, peirianeg neu ddysgu.

## Ffeithiau Allweddol

Math o radd: BSc/MPhys.

Cod UCAS: FH56/FH5P.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

### Y flwyddyn gyntaf:

- Astronomy
- Dynameg Glasurol/Classical Dynamics
- Grymoedd ac Egni/Forces and Energy
- Introduction to Computer Infrastructure
- Cyflwyniad i Raglennu/Introduction to Programming
- Technegau Labordy ar gyfer Ffiseg Arbrofol/Laboratory Techniques for Experimental Physics
- Modern Physics
- Rhaglennu gan ddefnyddio iaith Gwrthrych-Gyfeiriadol/Programming Using an Object-Oriented Language.

### Yr ail flwyddyn:

- C and C++
- Planets
- Python Gwyddonol/Scientific Python
- Sensors, Electronics and Instrumentation
- Optics
- Robotics and Embedded Systems.

### Y flwyddyn olaf:

- Concepts in Condensed Matter Physics
- Ionospheres and Magnetospheres
- Prosiect Hir/Major Project
- Planetary Neutral Atmospheres
- Semiconductor Technology
- Space Robotics.

Hyd: 3 blynedd/4 blynedd.


## Ffeithiau Allweddol

Math o radd: BSc/MPhys.

Cod UCAS: F364/F366.

# Graddau Cyfun a Phrif/Is-bwnc

Pwnc	Ar gael gyda...	Gradd Gyfun	Prif/is-bwnc
Physics	Computer Science	FG34	
	Education		F3X3
	Mathematics	FG31	



# Astroffiseg 35 ar gael drwy'r Gymraeg

## (gyda blwyddyn sylfaen integredig)

### BSc (Anrh)

Wedi'i gynllunio ar gyfer darpar fyfyrwyr nad oes ganddynt gefndir academiaidd ddigonol neu berthnasol, mae'r cwrs gyda blwyddyn sylfaen integredig yn ddewis perffaith i gael mynediad at y cyllun gradd hynod boblogaidd hwn. Yn ystod y flwyddyn sylfaen, cewch eich dysgu am hanfodion Astroffiseg a bydd hynny'n rhoi ichi sail gadarn i fynd ymlaen i fwynhau'r radd israddedig lawn. Trwy astudio'r cwrs Astroffiseg gyda blwyddyn sylfaen ym Mhrifysgol Aberystwyth, sydd wedi'i achredu gan y Sefydliad Ffiseg (IOP), cewch gyrraedd eich potensial mewn amgylchedd dysgu cefnogol.

Mae'r radd yn astudio meysydd sy'n cynnwys ffurfiant ac esblygiad cysawd yr haul, bydoedd cawr nwy a daearol, tu mewn ac arwynebau planedau, atmosfferau planedol, y gwynt solar, yr Haul fel seren, comedau, cewri coch, corachod gwyn, sêr niwtron, tyllau du, galaethau, cwasarau a chosmoleg.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Astroffiseg (gyda blwyddyn sylfaen integredig) yn Aberystwyth:

- astudio am radd sydd wedi'i hachredu gan y Sefydliad Ffiseg (IOP)
- cysylltu eich prosiect blwyddyn olaf ag ymchwil gyfredol o fewn yr Adran
- cyfle i ddefnyddio cyfarpar seryddol arbenigol
- cael eich dysgu gan ymchwilwyr sy'n rhan o deithiau presennol i'r gofod, fel Prosiect ExoMars 2020 yr Asiantaeth Ofod Ewropeaidd.

### Cyflogadwyedd

Bydd gradd mewn Astroffiseg yn eich paratoi ar gyfer gyrfa fel gwyddonydd y gofod, ffisegwr, technegydd labordy gwyddonol, ymarferwr diogelu ymbelydredd, a gwyddonydd ymchwil. Gallai llwybrau gyrfa eraill gynnwys datblygwyr systemau, gwyddonydd datblygu cynhyrchion, awdur technegol neu feteorolegydd. Byddai astudiaeth bellach yn gallu arwain at waith ymchwil, darlithio a dysgu.

### Ffeithiau Allweddol

 Math o radd: BSc.

 Cod UCAS: F512.

### Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

#### Y flwyddyn gyntaf:

- Energy and the Environment
- Cyflwyniad i Ffiseg Labordy/Introduction to Laboratory Physics
- Introduction to Mathematical Methods for Physicists 1 & 2
- Introduction to Oscillations and Waves
- Introduction to Physical Forces
- Introduction to the Physics of Matter.

#### Yr ail flwyddyn:

- Algebra a Hafaliadau Differol/Algebra and Differential Equations
- Astronomy
- Calcwlws/Calculus
- Dynameg Glasurol/Classical Dynamics
- Ffiseg Glasurol/Classical Physics
- Grymoedd ac Egni/Forces and Energy
- Algebra a Chalculws Pellach/Further Algebra and Calculus
- Modern Physics
- Cynllunio Gyrfa a Datblygu Sgiliau Ffiseg/Physics Career Planning and Skills Development.

#### Y drydedd flwyddyn:


- Ffiseg Fathemategol/Mathematical Physics
- Numerical Techniques for Physicists
- Planets
- Stars
- Optics
- Principles of Quantum Mechanics.

#### Y flwyddyn olaf:

- Concepts in Condensed Matter Physics
- Galaxies
- Interior of the Sun
- Prosiect/Project
- General Relativity and Cosmology
- The Solar Atmosphere and Heliosphere.

### Cwrs achrededig:

**IOP**  
Institute of Physics.

 Hyd: 4 blynedd.



## (gyda blwyddyn sylfaen integredig)

### BSc (Anrh)

Wedi'i gynllunio ar gyfer darpar fyfyrwyr nad oes ganddynt gefndir academaidd ddigonol neu berthnasol, mae'r cwrs gyda blwyddyn sylfaen integredig yn ddewis perffaith i gael mynediad at y cyllun gradd hynod boblogaidd hwn. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, byddwch yn dysgu am hanfodion ffiseg a fydd yn rhoi ichi sail gadarn i'ch galluogi i fynd ymlaen i fwynhau'r radd israddedig lawn, ac i gyrraedd eich potensial mewn amgylchedd dysgu cefnogol.

Mae dealltwriaeth o ddeddfau ffiseg yn sail i wyddoniaeth a thechnoleg fodern yn eu cyfanrwydd. Mae'n golygu defnyddio cysyniadau haniaethol, wedi'u mynegi trwy gyfrwng mathemateg, i fodelu a darogan ymddygiad systemau sy'n amrywio o ran graddfa o'r is-atomig i'r galaethol. Mae Ffiseg yn Aberystwyth yn archwilio agweddau mor amrywiol â thechnoleg gwantwm, damcaniaeth perthnasedd, a ffiseg cyflwr solid.

Bydd ein staff dysgu, a arweinir gan eu gwaith ymchwil, yn rhoi ichi wybodaeth arbenigol a sgiliau ymarferol, gan gwmpasu pynciau cyffrous megis technoleg gwantwm, perthnasedd a nanowyddoniaeth.

Dyma rai o'r cyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr Ffiseg (gyda blwyddyn sylfaen integredig) yn Aberystwyth:

- ymuno ag Adran sydd â phrofiad o dros 140 o flynyddoedd o ragoriaeth a dysgu
- yr opsiwn i gysylltu eich prosiectau blwyddyn olaf ag arbenigedd ymchwil ym maes deunyddiau, ffiseg gwantwm a ffiseg y gofod
- cael eich dysgu gan ymchwilwyr sy'n rhan o deithiau presennol i'r gofod megis Prosiect ExoMars2020 yr Asiantaeth Ofod Ewropeaidd.

#### Cyflogadwyedd

Bydd graddedigion Ffiseg wedi'u paratoi'n dda ar gyfer amrywiaeth eang o ddewisiadau gyrfa. Mae rhai o'n graddedigion bellach yn dilyn gyrfaedd mor amrywiol â meteoroleg, cyfrifeg, cyfrifiadura, geoffiseg, ffiseg feddygol, dysgu mewn ysgolion a phrifysgolion, a gwaith ymchwil.

#### Ffeithiau Allweddol

### Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

#### Y flwyddyn gyntaf:

- Energy and the Environment
- Introduction to Electricity and Magnetism
- Introduction to Mathematical Methods For Physicists 1 & 2
- Introduction to Oscillations and Waves
- Introduction to Physical Forces
- Introduction to Physics of Matter.

#### Yr ail flwyddyn:

- Algebra a Hafaliadau Differol/Algebra and Differential Equations
- Calcwlws/Calculus
- Dynameg Glasurol/Classical Dynamics
- Ffiseg Glasurol/Classical Physics
- Grymoedd ac Egni/Forces and Energy
- Algebra a Chalculws Pellach/Further Algebra and Calculus
- Modern Physics
- Cynllunio Gyrfa a Datblygu Sgiliau Ffiseg/Physics Career Planning and Skills Development.

#### Y drydedd flwyddyn:

- Ffiseg Fathemategol/Mathematical Physics
- Numerical Techniques for Physicists
- Sensors, Electronics and Instrumentation
- Optics
- Principles of Quantum Mechanics.

#### Y flwyddyn olaf:

- Concepts in Condensed Matter Physics
- Modern Optics and Photonics
- Prosiect/Project
- Structure and Determination of Condensed Matter
- Materials Physics
- Semiconductor Technology.

#### Cwrs achrededig:



# Cyflogadwyedd

Bydd gradd mewn Ffiseg yn eich darparu chi am gyrchfannau gyrfaol megis ffisegydd meddygol, technegydd labordy gwyddonol, ymarferydd amddiffyniad rhag pelydriad a gwyddonydd ymchwil.

Mae llwybrau gyfra eraill yn cynnwys datblygwr systemau, gwyddonydd datblygiad cynnyrch, awdur technegol neu feteorolegwr. Bydd astudiaethau ymhellach ar lefel uwchraddedig yn agor drysau i'r byd ymchwil, darlithio a dysgu. Yn y arolwg diweddaraf, roedd 93% o israddedigion DU/UE a raddiodd o Adran Ffiseg yn 2018 mewn cyflogaeth neu addysg bellach chwe mis ar ôl graddio (HESA 2018).

#### Sgiliau Trosglwyddadwy

Byddwch yn ennill amrywiaeth o sgiliau trosglwyddadwy gan astudio am radd Ffiseg y bydd cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi'n fawr.

Dyma rhai ohonynt:

- sgiliau dadansoddi data ac ymchwil
- sgiliau datblygedig cyfrifiadol a mathemategol
- sgiliau meddwl yn greadigol a datrys problemau'n effeithiol
- gallu i ddelio gyda chysyniadau haniaethol

- Sylfaen mewn sgiliau technoleg gwybodaeth
- gallu i weithio'n annibynnol
- sgiliau rheoli-amser a threfniadol gan gynnwys cyrraedd dyddiadau cau
- gallu i fynegi syniadau a chyfathrebu gwybodaeth mewn dull eglur a chyfundrefnus, ar ffurf lafar ac ysgrifenedig
- hunan-gymhelliad a hunan-ddibyniaeth
- gweithio mewn tîm, gallu i drafod cysyniadau mewn grŵp, goddef syniadau gwahanol i'ch rhai chi a chyrraedd cytundeb.

# Ysgoloriaeth Adrannol

Rydyn ni'n ymrwmo i annog ymgeiswyr brwdfrydig o safon uchel i astudio Ffiseg.

Mae'r Ysgoloriaeth Adrannol yn cynnig cymorth ariannol i fyfyrwyr yn ystod eu cyfnod astudio ac mae'n ychwanegiad nodedig i CV unrhyw fyfyrwr.

I fod yn gymwys, rhaid i chi naill ai feddu ar Ysgoloriaeth Mynediad y Brifysgol mewn Ffiseg neu Fathemateg, neu ennill o leiaf ddwy radd A Safon Uwch, ag un o'r rheini mewn Ffiseg. Lefel y dyfarniad yw £500 y flwyddyn am hyd eich cynllun gradd (tair neu bedair blynedd) sy'n rhoi cyfanswm o hyd at £6,800 (yn cynnwys Ysgoloriaeth Mynediad y Brifysgol). Cedwir y dyfarniad ar yr amod bod cyfartaledd o 70% neu fwy yn cael ei gyflawni bob blwyddyn yn yr arholiadau. Mae myfyrwyr anrhydedd cyfun yn gymwys am £250 y flwyddyn.

Gellir gwneud dyfarniadau ychwanegol hefyd yn ôl doethineb yr Adran.



# Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r Adran Ffiseg yn cynnig darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar pob cwrs ar draws yr adran.

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnig cryn dipyn o gyfleoedd i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg - un o'r uchaf yng Nghymru. Rydym yn cynnig cyfleoedd i fyfyrwyr sy'n rhugl yn ogystal â'r rhai sy'n llai hyderus neu sy'n ddysgwyr.

Mae'r ddarpariaeth israddedig yn amrywio o gyrsiau sy'n cynnig ambell fodiwl drwy gyfrwng y Gymraeg, i eraill lle mae modd astudio'r cwrs cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Addewidion Aber yw ymrwymiad Prifysgol Aberystwyth i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn dilyn cyhoeddi Strategaeth Academaidd Cyfrwng Cymraeg y Brifysgol.

Mae'r addewidion yn nodi'r hyn sy'n arbennig am Aberystwyth a sut mae'r Brifysgol yn cynnig profiad Cymraeg cyflawn.

- Cyfleoedd hyblyg i astudio trwy'r Gymraeg ymhob Cyfadran
- Gwarant o Diwtor Personol Cymraeg
- Profiad gwaith dwyieithog
- Gwarant o lety cyfrwng Cymraeg
- Gwersi dysgu neu wella Cymraeg
- Aelodaeth Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth (UMCA) am ddim.





# Ymchwil yr Adran

Ein prif nod yw darparu addysg o'r safon uchaf wedi'i harwain gan ymchwil cydweithiol o safon rhyngwladol mewn Ffiseg y Gofod, Ffiseg Defnyddiau a Ffiseg Cwantwm, a'r cwbl mewn awyrgylch cyfeillgar a chefnogol.

Mae ein darlithwyr yn ymchwilwyr gweithgar yn eu meysydd, ac yn rhan o brosiectau sy'n amrywio o beiriannu deunyddiau ac offerynnau newydd, i allteithiau i'r planedau ac astudiaethau sy'n torri tir newydd o weithgarwch yr Haul. Mae ein staff yn annog myfyrwyr israddedig i ddod yn rhan o'u gwaith drwy gydol eu hastudiaethau. Mae ein hymchwil wedi'i rannu'n ddau brif grŵp:


## Grŵp Ffiseg Ddeunydd

Mae ymchwilwyr sydd yn y Grŵp Ymchwil Ffiseg Ddeunydd yn defnyddio ystod o dechnegau mesur a modelu arbrolfol er mwyn dysgu mwy am ddeunyddiau sy'n berthnasol i'r diwydiant. Mae ymchwil i ddeunyddiau yn Aberystwyth yn canolbwyntio ar sawl prif faes: gwydrau, seolitau a serameg, ewynnau a hylifau cymhleth, rheolaeth a ffiseg sbinio, ac arwynebau a haenau tenau lled-ddargludyddion. Ym mhob un o'r meysydd hyn, defnyddir technegau cymhleth, sy'n mesur agweddau ar y deunyddiau wrth iddynt gael eu ffurfio a'u prosesu. Mae ein gwaith yn aml yn rhyngddisgyblaethol, er enghraifft rydym yn gweithio'n agos gyda'n cydweithwyr ym meysydd Mathemateg ar Strwythurau Cwantwm, Damcaniaeth Rheolaeth a Gwybodaeth, Bioleg a'r Bio-pigmentau a nodweddion newydd rhyngweithiadau proteinau, a Gwyddorau Daear ar offeryniaeth ymoleuedd newydd.

## Grŵp Ffiseg Cysawd yr Haul

Mae Grŵp Ffiseg Cysawd yr Haul yn Aberystwyth yn astudio'r un system hon, o ddatblygiad nodweddion ffrwydrol ar yr Haul, i esblygiad a strwythur deunyddiau yn y gwynt heulol, ac effaith y llif hwn ar amgylcheddau'r planedau mewnol. Mae'r grŵp hwn yn rhan o sawl alltaith sydd wedi'u cynllunio neu rai presennol, ac mae ganddo raglen o ddatblygu systemau optegol newydd a chydannau robotaid ar gyfer archwilio'r gofod.

Mae'r grŵp yn cynnal ymchwil mewn pedwar prif faes: Yr Haul, Gwynt Heulol a Heliosffer, Magnetosfferau ac Ionosfferau Planedol, Astrocemeg, ac Wynebau Planedol.





# Astudio yn yr Arctig



## Svalbard: Gwlad yr Eirth Gwynion a'r Awrorâu.

Svalbard yw un o'r lleoliadau mwyaf egsotig yn y byd. Mae'n ynysfor o ynysydd sy'n rhychwantu lledredau o oddeutu 74N i 81N, yn ddwfn y tu mewn i'r Cylch Arctig. Mae'n un o'r ardaloedd anial prin sydd heb ei difetha - mae llawer o'r ynysydd wedi'u gorchuddio gan rewlifoedd ac mae'n gartref i fywyd gwylt megis eirth gwynion, ceirw Llychlyn, morfeirch, morloi a llwynogod Arctig.

Svalbard yw'r lle delfrydol i astudio ffiseg atmosfferig, ïonosfferig a ffiseg y gofod oherwydd ar ledredau uchel mae ffenomenau dramatig yn digwydd sy'n anghyraeddadwy mewn mannau eraill, megis y fortect pegynol stratosfferig, teneuo'r ôson, a chysylltiad maes magnetig y blaned â'r gofod rhyngblanedol drwy'r llinellau maes agored a geir ar ledredau pegynol.

Caiff myfyrwyr sy'n astudio MPhys Ffiseg gyda Ffiseg y Planedau a'r Gofod gyfle digyffelyb i dreulio ail semester eu blwyddyn olaf (Ionawr - Mai) yn astudio yn UNIS (Canolfan Brifysgol ar Svalbard) prifysgol ryngwladol yn nhref Longyearbyen ar Svalbard. Mae myfyrwyr ledled Ewrop yn cwrdd i astudio cyrsiau uwch ym maes gwyddor begynol (bydd yr holl ddysgu yn cael ei wneud yn Saesneg ac nid oes unrhyw ffoedd dysgu ychwanegol). Mae Longyearbyen yn dref fywiog gyda bwytai, oriel gelf ac amgueddfa, neuadd chwaraeon a phwll nofio, tafarndai a sinema.<sup>4</sup>

Mae'r myfyrwyr yn byw mewn llety modern pwrpasol ac yn cael eu dysgu gan staff Prifysgol o Norwy sydd â bri rhyngwladol.



# Cyfleoedd byd-eang



Mae tîm Cyfleoedd Byd-eang Aberystwyth yn cynnig amrywiaeth gyffrous o ddewisiadau ichi fynd dramor am ran o'ch gradd: o gyrsiau byr a chyfleoedd i wirfoddoli yn ystod yr haf i dreulio semester neu flwyddyn lawn yn astudio'r pwnc o'ch dewis yn un o'r prifysgolion sy'n bartner inni.

Mae'r brifysgol hefyd yn cynnig nifer o gyrsiau sy'n cynnwys blwyddyn integredig yn astudio dramor. Mae hyn yn eich galluogi i astudio yn un o'n prifysgolion partner yn Ewrop neu mewn rhan arall o'r byd am un neu ddau semester yn ystod eich trydedd blwyddyn, gan ddychwelyd i Aberystwyth ar gyfer eich blwyddyn derfynol ac i raddio.

Mae adroddiadau'n dangos bod myfyrwyr sy'n astudio dramor yn fwy deniadol i gyflogwyr ac yn ennill mwy o gyflog na'u cyfoedion. Cymrwch fantais o'r cyfle unigryw hwn i wella eich sgiliau allweddol trwy ddewis astudio dramor.



Sydney



Denmarc



Montana



Siapan



Hong Kong



Washington, DC



Bergen



Lwerddon



Ottawa



# Sut i wneud cais

Pan fyddwch wedi penderfynu pa gwrs yr hoffech ei astudio a ble, gallwch ddechrau'r broses o ymgeisio. Dyma gipolwg byr o'r broses a'n gweithdrefnau yma yn Aberystwyth.

## 1 Gwneud cais trwy UCAS.com

Dyddiad cau 15 Ionawr. Cod sefydliad Prifysgol Aberystwyth: A40

**Gair i gall:** Cewch rif UCAS 10 digid. Cadwch hwn wrth law oherwydd gofynnir am y rhif nifer o weithiau.

## 2 Bydd y brifysgol yn ystyried eich cynnig

**Gair i gall:** Defnyddiwch UCAS Track i gadw llygad ar eich cais. Yn Aberystwyth rydym yn ceisio gwneud penderfyniad o fewn 4 wythnos.

## 3 Bydd y cynnig i'w weld ar UCAS Track

## 4 Penderfynwch ble i fynd

Pan fyddwch wedi cael eich holl gynigion, bydd angen i chi benderfynu i ba brifysgol yr hoffech fynd, o fewn amser penodol. Dyma pryd y bydd angen i chi nodi pa brifysgolion fydd eich dewisiadau cadarn ac wrth gefn.

## 5 Llety

Pan fyddwch wedi gwneud eich dewis cadarn/wrth gefn gallwch wneud cais am lety (Ebrill ymlaen).

## 6 Diwrnod y canlyniadau

Bydd UCAS Track yn cadarnhau eich cynnig o le. Os nad ydych yn sicr beth yw'r cynnig, cysylltwch â'r brifysgol yn uniongyrchol. Gwnewch yn sicr nad ydych ar wyliau ar ddiwrnod y canlyniadau. Os nad ydych yn cael y graddau yr oeddech wedi gobeithio amdanynt, efallai yr hoffech ystyried y broses Glirio

## 7 Dechreuwch bacio!







Adran Ffiseg,  
 Prifysgol Aberystwyth,  
 Derbynfa, Penglais,  
 Aberystwyth,  
 Ceredigion, SY23 3FL

☎ +44 (0)1970 62 2802

@ phys@aber.ac.uk

🐦 @AberPhys

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan  
 Marchnata a Denu Myfyrwyr,  
 Prifysgol Aberystwyth 2022.



Argraffwyd ar bapur  
 wedi'i ailgylchu 100%